

Gwneud penderfyniadau da:

Gwrandawiadau addasrwydd
ymarfer a chanllaw sancsiynau

Diwygiwyd
Mawrth 2017

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
Rhan a: Gwrandawiadau a'r broses benderfynu	7
2. Gwrandawiadau	7
Cyrraedd penderfyniad.....	10
Sefydlu'r ffeithiau	10
Nam.....	11
Gweithredu	12
Y penderfyniad.....	12
3. Ar ôl penderfynu ar sancsiwn	14
Mesurau dros dro	14
Gwrandawiadau adolygu	15
Rhan b: Canllaw ar sancsiynau.....	19
4. Sancsiynau sydd ar gael	20
Aelodau cofrestredig.....	20
Achosion iechyd	23
Anghenraid i gael asesiad iaith	23
Agreement of undertakings.....	23
Cyrff corfforaethol.....	24
Erlyn	24
5. Penderfynu ar sancsiwn	25
Materion allweddol i'w hystyried.....	25
Budd y cyhoedd.....	26
Ffactorau gwaethygu a lliniaru perthnasol.....	27
Amgylchiadau.....	28
Ymddygiad ac agwedd	28
Mewnwelediad.....	28
Tystebau.....	29
Gweithredoedd	29
6. Canllawiau ychwanegol ar feysydd penodol	30
Camymddwyn rhywiol	30
Anonestrwydd.....	31
Dyletswydd didwylledd.....	32
Mynegi pryderon.....	33

Amdanom ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif swyddogaethau'n cynnwys:

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i ofidiau nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu er mwyn cyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau

Rydym yn ymrwymedig at warchod, hybu a gwella iechyd a diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rhan bwysig o'r rôl honno yw delio gyda'r nifer fechan o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol nad ydyn nhw'n cyrraedd y safonau y gall y cyhoedd yn rhesymol eu disgwyl gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.



1. Rhagarweiniad

Yr hyn y mae'r canllaw hwn yn ymdrin ag ef

- 1.1 Mae'r canllaw hwn yn disgrifio ein gwrandawiadau addasrwydd ymarfer, sut y gwneir penderfyniadau a'r sancsiynau y gall pwyllgorau eu gosod. Mae hefyd yn darparu canllawiau i'w defnyddio gan bwyllgorau wrth benderfynu pa sancsiwn sy'n briodol mewn unrhyw achos arbennig.
- 1.2 Mae dwy ran i'r canllaw hwn:
 - Rhan a: Gwrandawiadau a'r broses benderfynu
 - Rhan b: Canllaw sancsiynau

Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn

- 1.3 Mae'r canllaw hwn ar gyfer pawb sydd ynghlwm wrth wrandawriad addasrwydd ymarfer. Mae hyn yn cynnwys staff y CFfC, aelodau pwyllgor, aelodau cofrestredig (boed yn ymddangos mewn gwrandawriad ai peidio) a'u cynrychiolwyr. Bydd hefyd o ddefnydd i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwrandawiadau addasrwydd ymarfer, gan gynnwys:
 - pobl sy'n ystyried cwyno wrth y CFfC am aelod cofrestredig
 - cleifion a'u cynrychiolwyr
 - sefydliadau amddiffyn
 - cyrff rheoleiddio eraill, yn cynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP)
 - y llysoedd
- 1.4 Byddwn yn adolygu'r canllaw hwn yn gyson er mwyn:
 - ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion
 - sicrhau ei fod yn dal i fod yn 'addas at ei bwrpas' ac yn hygyrch i randdeiliaid

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- 1.5 Mae'r CFFC yn ymrwymedig at hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth iddo gyflawni ei waith. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ymhlith ein staff, y proffesiwn a'r cyngor. Ein nod yw sicrhau bod ein prosesau'n deg, yn wrthrychol, yn dryloyw ac nad oes ynddynt unrhyw gamwahaniaethu. Rydym hefyd am sicrhau bod y gwasanaeth a roddwn i'n rhanddeiliaid o safon uchel. Rydym yn glynu wrth yr egwyddorion a ymgorfforir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym wedi datblygu **cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**
- 1.6 Disgwylir i bob aelod o staff y CFFC arddangos ein gwerthoedd ac i weithio tuag at yr amcanion hyn drwy gydol y broses addasrwydd ymarfer. Bydd y CFFC yn cynnal ac yn gwreiddio egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998.



Rhan a: Gwrandawiadau a'r broses benderfynu

Mae'r rhan hon yn ymdrin â gwrandawiadau addasrwydd ymarfer, pa rôl maen nhw'n ei chwarae o fewn y broses benderfynu a sut mae pwyllgor yn penderfynu a ddylid rhoi sancsiwn, ac os felly, pa sancsiwn.

2. Gwrandawiadau

2.1 Mae gwrandawriad addasrwydd ymarfer yn un rhan o broses fanwl sy'n cychwyn ar ôl i'r CFFC dderbyn cwyn¹. Gall y broses hon ddod i ben ar nifer o adegau:

- ar ôl ymchwiliad
- mewn cyfarfod o'r pwyllgor ymchwilio
- mewn gwrandawriad Addasrwydd Ymarfer²

Y canllawiau a ddefnyddir ymhob cam o'r broses




2.2 Defnyddir canllawiau penderfynu ymhob cam er mwyn penderfynu pa weithredoedd i'w rhoi ar waith.

- Defnyddir ein meini **prawf trothwy** yn ystod y cyfnod ymchwilio i benderfynu a ddylid cyfeirio achos at y Pwyllgor Ymchwilio
- Defnyddir ein dogfen **Gwneud penderfyniadau da: canllaw cyfarfodydd ymchwilio a chanlyniadau**³ gan y Pwyllgor Ymchwilio i'w helpu i drafod achosion y mae'n penderfynu arnyn nhw
- **Mae'r canllaw hwn** yn ymdrin â gwrandawiadau addasrwydd ymarfer a'r penderfyniadau a wneir gan Bwyllgor Addasrwydd Ymarfer yn ystod gwrandawriad

¹ Y cyhuddiadau sydd o fewn awdurdodaeth y CFFC

² Cyfeirir rhai achosion yn uniongyrchol gan Erthygl Cofrestrwydd 52(2)(b) ac Erthygl Art 54 (1)(a) Gorchymyn Fferyllol 2010

³ **NEED TO ADD** link when it is uploaded

- 
- 2.3 Os cyfeirir achos at y Pwyllgor Addasrwydd Ymarfer, bydd gwrandawriad yn cael ei gynnal fel arfer. Cynhelir y gwrandawriad gan banel o dri pherson (cadeirydd, aelod cofrestredig ac aelod lleyg). Mae'n bosibl y bydd pobl eraill yn y gwrandawriad, yn cynnwys ymgynghorydd cyfreithiol, ymgynghorydd meddygol, staff CFC a chynrychiolwyr aelodau cofrestredig. Mae'r pwyllgorau yn gwrandao ar dystiolaeth ac yn penderfynu a oes nam ar addasrwydd ymarfer aelod cofrestredig⁴.
- 2.4 Mae'r Pwyllgor Addasrwydd Ymarfer yn annibynnol ar y CFC. Mae'n atebol⁵ dros y penderfyniadau a wna, a rhaid iddo ystyried canllawiau a gynhyrchir gan y CFC⁶.
- 2.5 Yn y rhan fwyaf o achosion, y dybiaeth yw y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus. Gellir cynnal gwrandawriad yn gyfan gwbl neu'n rhannol breifat os yw'r pwyllgor yn fodlon bod preifatrwydd y person dan sylw neu'r trydydd parti yn gwrthbwysu'r budd a ddaw o gynnal y gwrandawriad, neu ran ohono, yn gyhoeddus⁷. Os mai ynghylch iechyd yr aelod cofrestredig y mae'r gwrandawriad, neu os yw'n ymwneud â gorchymyn dros dro, rhaid cynnal y gwrandawriad yn breifat, oni phenderfynir bod budd y cyhoedd yn gwrthbwysu preifatrwydd yr aelod cofrestredig dan sylw, neu'r trydydd parti⁸.

⁴ Eglurir ystyr nam ym mharagraff 2.12

⁵ Creffir ar bob penderfyniad gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a gall apel yn eu herbyn ddigwydd - adr.29 DeddfDiwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002


⁶ Rheol 31(14) – Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

⁷ Rheol 39 - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

⁸ Rheol 39 - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

Cyrraedd penderfyniad

- 2.6 Yn ystod gwrandawriad, mae'r pwyllgor yn dilyn proses dair rhan cyn iddo benderfynu a ddylid gosod sancsiwn, ac os felly, pa sancsiwn⁹. Gynted ag y bo'r pwyllgor wedi gwrandao ar y dystiolaeth, rhaid iddo benderfynu:
- A yw'r **ffeithiau** a honnir wedi eu profi
 - a oes **nam** ar addasrwydd ymarfer yr aelod cofrestredig
 - a oes angen **gweithredu**, drwy osod sancsiwn ar yr aelod cofrestredig ai peidio. Ymdrinnir yn fanwl â hyn yn rhan b y canllaw hwn.
- 2.7 Wrth benderfynu dylai'r pwyllgor hefyd ystyried amcanion cyffredinol y CFfC¹⁰.



Sefydlu'r ffeithiau

- 2.8 Mewn gwrandawriad, rhaid i'r CFfC brofi'r ffeithiau a honnir yn erbyn aelod cofrestredig. Y safon profi a ddefnyddir yw 'yn ôl yr hyn sy'n debygol'. Golyga hyn y bydd y Pwyllgor yn ystyried ffaith a honnir wedi 'ei phrofi' os yw'n penderfynu, ar ôl clywed y dystiolaeth, ei bod yn fyw tebygol na pheidio ei bod wedi digwydd. Nid yw hyn yr un safon profi ag a ddefnyddir mewn llys barn, sydd yn mynnu 'eich bod yn sicr'.
- 2.9 Os yw aelod cofrestredig yn cyfaddef unrhyw un neu unrhyw rai o'r ffeithiau a honnir, rhaid i'r pwyllgor gymryd bod y ffeithiau sydd wedi eu cyfaddef wedi eu profi¹¹.
- 2.10 Os bydd y ffeithiau sydd wedi eu honni yn erbyn yr aelod cofrestredig yn cael eu profi, nid yw'n golygu o anghenraid y penderfynir bod nam ar ei addasrwydd ymarfer. Rhaid i benderfyniad pwyllgor ynghylch nam fod ar wahân i'r penderfyniad ynghylch ffeithiau'r achos. Er enghraifft, hyd yn oed os penderfynir bod camymddwyn wedi digwydd gall pwyllgor benderfynu nad oes nam ar addasrwydd ymarfer yr aelod cofrestredig a phenderfynu nad oes angen gweithredu.

⁹ Rheol 31 - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

¹⁰ Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 6

¹¹ Rheol 31(6) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

Nam

- 2.11 Mae gweithiwr fferyllol proffesiynol yn 'addas i ymarfer' pan fo ganddo neu ganddi'r sgiliau, gwybodaeth, cymeriad, ymddygiad ac iechyd sydd eu hangen i allu gweithio fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnal safonau galluedd priodol, arddangos cymeriad da a chadw at yr egwyddorion arfer dda a ddisgrifir yn ein safonau, canllawiau a chyngor amrywiol.
- 2.12 Gall nifer o bethau amharu ar addasrwydd ymarfer, yn cynnwys camymddwyn, diffyg galluedd, peidio â meddu ar wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg, afiechyd neu gollfarn am drosedd¹².
- 2.13 Gall y pwyllgor ystyried cyhuddiadau mewn bywyd proffesiynol neu bersonol. Rhaid iddo benderfynu a oes diffyg ar addasrwydd ymarfer yr aelod cofrestredig ar hyn o bryd, **nid** a oedd diffyg ar yr adeg y digwyddodd y digwyddiad¹³. Rhaid i'r pwyllgor ystyried amcanion cyffredinol y CFfC wrth benderfynu a oes diffyg yn addasrwydd ymarfer y gweithiwr fferyllol proffesiynol¹⁴. Rhaid i'r pwyllgor hefyd ystyried ffactorau perthnasol, sy'n cynnwys a yw'r ymddygiad¹⁵:
- yn risg bosibl neu wirioneddol i gleifion neu'r cyhoedd
 - wedi dwyn, neu y gallai ddwyn, anfri ar y proffesiwn fferyllol
 - wedi torri un o egwyddorion gwaelodol y proffesiwn fferyllol
 - yn dangos na ellir dibynnu bellach ar ddidwylledd yr aelod cofrestredig.
- 2.14 Dylai'r pwyllgor hefyd ystyried:
- a ellir unioni'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn
 - a yw'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn wedi ei unioni
 - a yw'n debygol y bydd yr ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn yn digwydd eto
 - a oes angen barnu bod nam ar addasrwydd ymarfer er mwyn datgan a chynnal safonau ymddygiad priodol a/neu gynnal hyder yn y proffesiwn.
- 2.15 Wrth benderfynu a oes diffyg yn addasrwydd ymarfer person am nad oes ganddo neu ganddi wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg, gall y pwyllgor ystyried, ymhlith pethau eraill¹⁶:
- a ydy'r person dan sylw wedi methu â chydymffurfio gyda chyfarwyddyd, a roddwyd yn y rheolau, i sefyll arholiad neu asesiad arall ar eu gwybodaeth o'r Saesneg, neu
 - a ydy'r person dan sylw wedi methu â rhoi tystiolaeth i'r cofrestrydd o ganlyniadau'r arholiad neu asesiad hwnnw

¹² Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 51

¹³ Meadow v CMC [2007]

¹⁴ Atodlen 1(5) (8) – Gorchymyn Fferyllol 2010

¹⁵ Rheol 5 – Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

¹⁶ Rheol 24 (11a) – Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

2.16 Mater i farn y pwyllgor yw'r penderfyniad ar nam ar addasrwydd ymarfer. Rhaid i'r pwyllgor wneud ei benderfyniad ei hun, hyd yn oed pan fo aelod cofrestredig yn cyfaddef. Dylai egluro'n glir pa ffactorau y mae wedi eu hystyried wrth benderfynu ar nam ar addasrwydd ymarfer.

Gweithredu

2.17 Os yw pwyllgor yn penderfynu bod nam ar addasrwydd ymarfer aelod cofrestredig, gall:

- beidio â gweithredu
- Cytuno ar addewid¹⁷
- cyhoeddi rhybudd
- gosod amodau ar yr aelod cofrestredig
- gwahardd yr aelod rhag ymarfer dros dro, neu
- ddileu'r aelod o'r gofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol

2.18 Rhaid i'r pwyllgor, ar ôl ystyried y canllaw hwn, ystyried y sancsiwn priodol yn yr achos dan sylw, cyhoeddi ei benderfyniad a rhoi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw¹⁸.

2.19 Nod y sancsiynau hyn yw diogelu'r cyhoedd, a budd helaethach y cyhoedd, nid cosbi'r aelod cofrestredig. Mae rhagor o fanylion am y sancsiynau hyn, a'r hyn y mae pwyllgor yn ei ystyried wrth benderfynu ar sancsiwn, yn rhan b y ddogfen hon.

Y penderfyniad

2.20 Gynted ag y bydd pwyllgor wedi cyrraedd penderfyniad ymhob cam o'r gwrandawriad, bydd yn datgan 'cyhoeddiad'. Datganiad ffurfiol yw'r cyhoeddiad gan y pwyllgor, yn egluro ei benderfyniad a'r rhesymau drosto. Mae'r manylion y mae pwyllgor yn ei roi wrth gyhoeddi yn dibynnu ar natur yr achos a pha mor gymhleth y mae'r achos. Ymhob achos, dylai'r rhesymau fod yn ddigonol er mwyn i'r penderfyniad gael ei ddeall yn hawdd gan yr aelod cofrestredig, y CFFC, y sawl sy'n cwyno ac unrhyw barti arall â diddordeb. Dylai fod yn gwbl glir pam y gwnaed y penderfyniad.

2.21 Dylai cyhoeddiad y pwyllgor ddilyn y canllawiau ar ddrafftio cyhoeddiadau addasrwydd ymarfer¹⁷. Dylai'r pwyllgor sicrhau bod y penderfyniad ynghylch sancsiwn yn cael ei egluro'n llawn ac y deallir ef. Dylai'r cyhoeddiad egluro, mewn ieithwedd glir ac uniongyrchol sy'n gwbl ddiawys ac na ellir ei gamddehongli:

- Pa sancsiwn sydd wedi ei osod, os oes sancsiwn
- Y rhesymau dros y sancsiwn

¹⁷ Gweler paragraff 4.11

¹⁸ Rheol 31 (14) – Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

- pam bod y pwyllgor yn fodlon bod y penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried angen y pwyllgor i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd, cynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn, a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol aelodau'r proffesiwn

2.22 Rhaid i bwyllgor ystyried y canllaw hwn wrth benderfynu ar sancsiwn. Os yw'n penderfynu peidio ag ystyried y canllaw rhaid iddo egluro'n llawn pam y mae'n gwneud hynny.

2.23 Dylai cyhoeddiad y pwyllgor ynghylch sancsiwn egluro pam y mae o'r farn bod y sancsiwn y mae'n ei osod yn briodol ac yn gymesur. Dylai ddweud sut yr ystyriodd y pwyllgor y sancsiynau posibl, gan ddechrau gyda'r sancsiwn lleiaf llym a gweithio i fyny. Dylai'r cyhoeddiad nodi pam y penderfynodd y pwyllgor ar y sancsiwn, ac egluro:

- pam nad yw'r sancsiynau llai yn addas
- pam nad yw'r sancsiynau nesaf, mwy difrifol, yn addas
- sut bydd y sancsiwn a osodwyd yn diogelu'r cyhoedd a budd ehangach y cyhoedd

2.24 Er tegwch, mae'n bwysig bod yr aelod cofrestredig yn derbyn rhesymau digonol, er mwyn iddo neu iddi benderfynu a yw'n mynd i apelio yn erbyn y penderfyniad. Rhaid i'r CFfC, y sawl sy'n cwyno, y cyhoedd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP) allu deall y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau'r pwyllgor. Dylai unrhyw bwyllgor a fydd yn gorfod ystyried yr achos yn ddiweddarach (mewn gwrandawriad adolygu, er enghraifft) allu deall y rhesymau wrth wraidd y penderfyniad gwreiddiol.

3. Ar ôl penderfynu ar sancsiwn

- 3.1 Wedi i bwyllgor benderfynu ar sancsiwn, gall hefyd osod 'mesur dros dro' sy'n dod yn weithredol yn syth. Gynted ag y daw'r gwrandawriad i ben, mae'n bosibl y bydd gwrandawriad adolygu ar ddyddiad arall. Mae hyn yn dibynnu ar y sancsiwn ac amgylchiadau'r achos.

Mesurau dros dro

- 3.2 Gall y pwyllgor osod mesurau dros dro os yw wedi penderfynu:
- dileu aelod o'r gofrestr
 - gwahardd aelod dros dro
 - rhoi amodau ar aelodaeth o'r gofrestr¹⁹
- 3.3 Gall pwyllgor osod mesurau dros dro²⁰ os yw o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, neu eu bod o fudd i'r cyhoedd neu'r aelod cofrestredig. Bydd unrhyw fesur dros dro yn dod yn weithredol yn syth a gallant fod mewn grym am y 'cyfnod apelio' o 28 diwrnod. Os yw'r aelod cofrestredig yn apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd y mesurau'n aros mewn grym tan i'r apêl gael ei benderfynu.
- 3.4 Cyn ystyried a ddylid gosod mesurau dros dro, dylai'r pwyllgor wahodd sylwadau gan y ddau barti. Pan fo'n cyhoeddi a yw'n gosod mesurau dros dro, dylai'r pwyllgor nodi ei resymau dros wneud hynny. Dylai'r pwyllgor gofio'r sancsiwn sydd wedi ei osod ac unrhyw risg i'r cyhoedd wrth ystyried a yw'n mynd i osod mesurau dros dro.
- 3.5 Hyd yn oed os yw'n penderfynu peidio â gosod mesurau dros dro, dylai'r pwyllgor nodi'n glir yn ei gyhoeddiad ei fod wedi eu hystyried a pham y penderfynodd beidio â'u gosod.
- 3.6 Dylai'r pwyllgor roi rhesymau priodol, digonol a chdir dros osod mesurau dros dro a sicrhau bod y mesurau'n gyson â'r penderfyniad ynghylch a oes nam ar addasrwydd ymarfer yr aelod cofrestredig. Dylai'r rhesymau egluro pam bod y pwyllgor o'r farn bod gosod mesurau dros dro yn:
- angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd
 - er budd y cyhoedd mewn rhyw ffordd arall, neu
 - er budd yr aelod cofrestredig

¹⁹ Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 60(3) a (4)

²⁰ Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 60

3.7 Gellir gosod mesurau dros dro, ar ffurf gwaharddiad, ddim ond pan fo penderfyniad i ddileu neu wahardd wedi ei wneud. Dim ond pan fo amodau wedi eu gosod ar aelodaeth y gellir gosod mesur amodau dros dro.

Gwrandawiadau adolygu

3.8 Gellir cynnal gwrandawiadau adolygu²¹ pan fo:

- aelod cofrestredig yn cael ei wahardd dros dro o'r gofrestr yn sgil gwrandawiad; bydd pwyllgor fel arfer yn penderfynu y dylid cynnal gwrandawiad adolygu cyn i gyfnod y gwaharddiad ddod i ben
- 'amodau ymarfer' yn cael eu gosod yn sgil gwrandawiad; bydd pwyllgor fel arfer yn penderfynu y dylid cynnal gwrandawiad adolygu cyn i gyfnod yr amodau ddod i ben

3.9 Gall pwyllgor adolygu'r mater cyn y gwrandawiad adolygu sydd wedi ei amserlennu. Er enghraifft, efallai y bydd gan y CFfC dystiolaeth bod yr aelod wedi bod yn ymarfer tra'i fod wedi ei wahardd neu wedi methu â chydymffurfio a'r amodau a osodwyd arno. Gellir gosod sancsiynau ychwanegol gan y pwyllgor mewn gwrandawiad adolygu²².

3.10 Os yw pwyllgor yn penderfynu, mewn achos penodol, nad oes angen gwrandawiad adolygu pellach, dylai roi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Os oes gwrandawiad adolygu i'w gynnal, dylai'r pwyllgor egluro yn ei gyhoeddiad y math o dystiolaeth y byddai disgwyl i aelod cofrestredig ei darparu yn y gwrandawiad hwnnw.

3.11 Os daw'r CFfC yn ymwybodol, cyn y gwrandawiad adolygu, o dystiolaeth newydd* y mae am ei chyflwyno i'r pwyllgor:

- gall y cyngor ofyn am gyfarwyddyd rheoli achos
- gall cadeirydd y pwyllgor benderfynu y dylid ystyried y dystiolaeth newydd yn y gwrandawiad adolygu, ac y dylid addasu'r rheolau hyn er mwyn adlewyrchu amgylchiadau'r achos²³

*(*Er enghraifft, dystiolaeth o fethu â chydymffurfio ag amodau, neu fod ar unrhyw restrau mae aelod wedi ei wahardd ohonynt.)*

3.12 Mewn gwrandawiad adolygu, rhaid i benderfyniad bod nam ar addasrwydd ymarfer fod wedi ei seilio ar yr honiad gwreiddiol. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a oes nam yn dal i fod ar addasrwydd ymarfer yr aelod ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd bellach ar gael. Disgwylir i'r

²¹ Gweler Rheol 34 - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 20102010 ar gyfer y weithdrefn a ddilynir mewn gwrandawiad adolygu 21 Ni ellir dileu aelodaeth mewn achosion iechyd

²² Ni ellir dileu aelodaeth mewn achosion iechyd

²³ Rheol 30 - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

aelod cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod unrhyw nam yn y gorffennol nawr wedi ei unioni²⁴. Rhaid i'r pwyllgor ystyried y canllaw mewn gwrandawiadau adolygu hefyd²⁵.

- 3.13 Bydd y CFfC yn monitro unrhyw amodau a osodir ar aelodaeth. Gallai hyn olygu nad oes angen i'r pwyllgor ofyn am adolygiad cynnar ar yr achos. Os bydd y CFfC yn darganfod bod yr amodau wedi eu torri, neu os na fu cydymffurfiaeth gyda'r amodau, dylid wedyn gynnal adolygiad cynnar. Bydd hyn yn galluogi'r pwyllgor i benderfynu a ddylid parhau, diwygio neu hyd yn oed ddileu'r amodau a gosod sancsiwn mwy priodol.

²⁴ Abrahaem v CMC [2008] EWHC 183 (Gwein)

²⁵ Rheol 34 (9A) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

Gwahardd dros dro

Ystyriaethau	Canlyniadau	Penderfyniad
<p>Mewn rhai achosion gall fod yn amlwg, yn dilyn cyfnod byr o waharddiad, na fydd gwerth cynnal gwrandawriad adolygu. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, pan osodir gwaharddiad bydd angen i'r pwyllgor fod yn siŵr bod yr aelod yn addas i ddychwelyd i ymarfer nail ai gydag amodau neu heb amodau.</p> <p>Bydd angen i'r pwyllgor hefyd ei fodloni ei hun bod yr aelod cofrestredig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn llawn sylweddoli difrifoldeb torri'r amodau • heb dorri'r safonau ymhellach²⁶ 	<p>Os yw'r pwyllgor wedi gwahardd aelod dros dro, gall, yn sgil adolygiad, benderfynu²⁷:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ei ddileu o'r gofrestr (ddim mewn achos yn ymwneud yn unig ag iechyd²⁸) • ymestyn y gwaharddiad gan gyfnod hyd at 12 mis, o'r adeg y byddai'r gwaharddiad gwreiddiol wedi dod i ben • gwahardd ei aelodaeth am gyfnod amhenodol, os yw'r gwaharddiad eisoes wedi bod mewn grym ers o leiaf ddwy flynedd²⁹ • dod â gwaharddiad amhenodol i ben • y dylid gosod amodau pan ddaw'r gwaharddiad i ben 	<p>Pan fo'r pwyllgor yn dileu gorchymyn gwahardd ac yn gosod amodau ar gofrestriad aelod yn ei le, neu'n caniatáu i aelod ddychwelyd i ymarfer heb amod, dylai'r cyhoeddiad egluro pam na fydd risg i'r cyhoedd yn sgil y penderfyniad.</p>

²⁶ Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 48 (1)

²⁷ Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 54(3)(a)

²⁸ Gweler paragraff 4.6

²⁹ Rhaid adolygu'r penderfyniad hwn ar gais y cofrestrydd a bod o leiaf dwy flynedd ers i'r penderfyniad ddod i rym neu gael i adolygu. Erthygl 54(4) Gorchymyn Fferyllol 2010

Amodau

Ystyriaethau	Canlyniadau	Penderfyniad
<p>Yn y rhan fwyaf o achosion, pan fo amodau wedi eu gosod, bydd angen i'r pwyllgor fod yn sicr bod yr aelod yn addas I ddychwelyd i ymarfer heb gyfyngiad, neu i ymarfer gydag amodau eraill neu ychwanegol.</p>	<p>Pan fo aelodaeth aelod o'r gofrestr yn amodol arno'n cydymffurfio gydag amodau gall y pwyllgor³⁰:</p> <ul style="list-style-type: none">• ymestyn y cyfnod amodau am hyd at 3 blynedd yn cychwyn o'r adeg y byddai'r cyfnod cynharach wedi dod i ben• ychwanegu at, dileu neu amrywio'r amodau• gwahardd aelodaeth am hyd at 12 mis• dileu'r aelod o'r gofrestr	<p>Os yw'r pwyllgor yn adolygu amodau'r aelod, dylai'r cyhoeddiad nodi a yw'r aelod wedi cydymffurfio gyda'r amodau.</p> <p>Os yw'r pwyllgor yn penderfynu bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio, rhaid iddo ddod i benderfyniadau penodol.</p> <p>Rhaid i'r rhain egluro pa amodau na fu cydymffurfiaeth â nhw ac ar sail pa dystiolaeth mae'r pwyllgor wedi penderfynu.</p>

³⁰ Gorchymyn Fferyllol 2010 Erthygl 54(3)(b)



Rhan b: Canllaw ar sancsiynau

Mae'r rhan hon yn ymdrin â chanllawiau'r CffC i natur y sancsiynau sydd ar gael, a pha faterion neu ffactorau y dylai pwyllgor eu hystyried cyn penderfynu pa sancsiynau i'w gosod.

Ni fwriedir i'r canllaw hwn ymyrryd â phwerau'r pwyllgor i osod pa sancsiwn bynnag y penderfyna mewn achosion unigol³¹.

Dylai aelodau'r pwyllgor ddefnyddio'u crebwyll eu hunain wrth benderfynu pa sancsiynau i'w gosod. Dylent hefyd sicrhau bod unrhyw sancsiynau yn gymesur a phriodol, ar sail ffeithiau'r achos unigol, ac er budd y cyhoedd.

Wrth benderfynu ar sancsiwn priodol, rhaid i'r pwyllgor ystyried y canllaw hwn. Os yw pwyllgor yn penderfynu peidio â dilyn y canllaw, rhaid iddo egluro pam y mae wedi penderfynu ar y sancsiwn.

³¹ CRHP v (1) CMC (2) Leeper [2004]

4. Sanctsiynau sydd ar gael

- 4.1 Defnyddir sanctsiynau addasrwydd ymarfer i ddiogelu'r cyhoedd a budd ehangach y cyhoedd. Er y gall effaith sanctsiynau, er enghraifft gwaharddiad dros dro neu barhaol, effeithio'n andwyol ar aelod cofrestredig, nid ei gosbi yw'r bwriad.
- 4.2 Mae gan y pwyllgor bwerau i osod sanctsiwn p'un ai ei fod e'n penderfynu bod nam ar addasrwydd ymarfer aelod ai peidio. Gellir gosod y rhan fwyaf o sanctsiynau, fodd bynnag, ddim ond pan fo penderfyniad bod nam ar addasrwydd ymarfer. Mae'r tabl isod yn dangos pa sanctsiynau sydd ar gael.

Aelodau cofrestredig

- 4.3 Gall pwyllgor osod unrhyw un neu rai o'r sanctsiynau a nodir isod. Mae'r tabl yn cynnwys manylion pa sanctsiynau y gellir eu harddangos ar y gofrestr ar-lein. Mae ein **polisi cyhoeddi a datgelu** yn egluro am ba hyd y gellir eu dangos ar y gofrestr.

Dim gweithredu

Effaith ar y gofrestr	Amgylchiadau pan allai hyn ddigwydd
Ni fydd unrhyw weithredu, bydd yr achos yn cael ei gau ac ni chofnodir yr achos ar y gofrestr.	Gallai hyn ddigwydd hyd yn oed pan benderfynir bod nam ar addasrwydd ymarfer ond nad oes risg i'r cyhoedd ac nad oes angen gosod sanctsiwn.

Cyngor

Effaith ar y gofrestr	Amgylchiadau pan allai hyn ddigwydd
Dim ond pan benderfynir nad oes nam ar addasrwydd ymarfer y gellir penderfynu ar hyn. Mae'r pwyllgor yn rhoi cyngor i'r aelod cofrestredig ynghylch unrhyw fater yr ystyria'n angenrheidiol neu'n ddymunol. Ni fydd yn cael ei gofnodi ar y gofrestr.	Nid oes angen gweithredu i gyfyngu ar hawl aelod i ymarfer ac nid oes risg i'r cleifion na'r cyhoedd. Mewn achosion pan benderfynir nad oes nam ar addasrwydd, nid yw'r gofidiau'n ddigonol i benderfynu bod nam ar addasrwydd ymarfer ond maent yn ddigon difrifol i haeddu ymateb ffurfiol. Dylai'r pwyllgor egluro pam bod angen ymateb ffurfiol er gwaethaf penderfyniad 'dim nam addasrwydd'.

Rhybudd

Effaith ar y gofrestr	Amgylchiadau pan allai hyn ddigwydd
<p>Mae'r pwyllgor yn rhoi rhybudd i'r aelod cofrestredig. Bydd manylion y rhybudd hwn yn cael eu cofnodi ar y gofrestr.</p> <p>Gellir hefyd roi rhybudd pan enderfynir nad oes nam ar addasrwydd ymarfer (gweler 'cyngor' uchod).</p>	<p>Nid oes angen dangos i'r aelod cofrestredig, na'r proffesiwn a'r cyhoedd, bod yr ymddygiad heb gyrraedd y safonau derbyniol.</p> <p>Nid oes angen gweithredu l gyfyngu ar hawl ymarfer yr aelod, nid oes risg i'r cyhoedd a phan fo angen datgan yn gyhoeddus nad oedd yr ymddygiad yn briodol.</p>

Amodau

Effaith ar y gofrestr	Amgylchiadau pan allai hyn ddigwydd
<p>Amodau'n³² gosod cyfyngiadau ar aelodaeth gofrestredig yr aelod am y cyfnod y penderfynir arno gan y pwyllgor (hyd at dair blynedd). Bydd manylion yr amodau yn cael eu cofnodi ar y gofrestr.</p>	<p>Mae tystiolaeth o berfformiad gwael, neu fethiannau sylweddol yng ngwaith aelod cofrestredig, ond mae'r pwyllgor yn fodlon y gallai'r aelod ymateb yn bositif i ailhyfforddant a goruchwyliaeth.</p> <p>Nid oes risg sylweddol i'r cyhoedd, ac mae'n ddiogel i'r aelod cofrestredig ddychwelyd i ymarfer ond gyda chyfyngiadau.</p>

³² Wedi eu cymryd o fanc safonol o amodau fydd ar gael i'r pwyllgor
www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/good_decision_making_undertakings_bank_january_2016.pdf

Gwaharddiad dros dro

Effaith ar y gofrestr	Amgylchiadau pan allai hyn ddigwydd
<p>Mae gwaharddiad yn atal aelod cofrestredig rhag ymarfer am gyfnod penodol a benderfynir gan y pwyllgor (hyd at 12 mis).</p> <p>Cofnodir manylion y gwaharddiad ar y gofrestr.</p>	<p>Mae tystiolaeth o berfformiad gwael, neu fethiannau sylweddol yng ngwaith aelod cofrestredig, ond mae'r pwyllgor yn fodlon y gallai'r aelod ymateb yn bositif i ailhyfforddant a goruchwyliaeth.</p> <p>Nid oes risg sylweddol i'r cyhoedd, ac mae'n ddiogel i'r aelod cofrestredig ddychwelyd i ymarfer ond gyda chyfyngiadau.</p>

Dileu

Effaith ar y gofrestr	Amgylchiadau pan allai hyn ddigwydd
<p>Bydd aelodaeth yr aelod o'r gofrestr yn cael ei dileu ac ni fydd mwyach yn gallu gweithio fel fferylllydd ym Mhrydain³³.</p>	<p>Neilltuir hyn i'r achosion mwyaf difrifol o gamymddwyn. Ni all y pwyllgor osod y sancsiwn hwn mewn achosion sy'n ymwneud yn unig ag iechyd yr aelod. Dylai'r pwyllgor ystyried hyn pan fo ymddygiad yr aelod yn waelodol anghymarus gyda bod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig.</p>

- 4.4 Gall y pwyllgor hefyd roi cyngor³⁴ i unrhyw berson arall neu unrhyw gorff arall sydd ynghlwm wrth yr ymchwiliad ar unrhyw fater yn codi o, neu'n ymwneud â, honiad³⁵.
- 4.5 Os oes gan aelod gofnod mewn mwy nag un rhan o'r gofrestr, rhaid i'r pwyllgor roi cyhoeddiad ar wahân yn ysgrifenedig ar gyfer pob rhan o'r gofrestr. Gall y pwyllgor osod un sancsiwn ar gyfer pob rhan o'r gofrestr, neu wahanol sancsiynau ar gyfer gwahanol rannau o'r gofrestr.

³³ Rhaid i'r ymgeisydd aros 5 mlynedd cyn gwneud cais am gael ei adfer i'r gofrestr

³⁴ P'un ai penderfynwyd bod nam ai peidio

³⁵ Gorchymyn Fferylliaeth 2010 Erthygl 54(5)

Achosion iechyd

4.6 Os yw'r pwyllgor yn penderfynu mai iechyd aelod yw'r unig beth sy'n achosi nam ar addasrwydd ymarfer yr aelod, ni all benderfynu dileu'r aelod o'r gofrestr³⁶ yn y prif wrandawriad. Yn achos cyhuddiadau'n ymwneud ag iechyd, gall y cadeirydd benderfynu bod angen i'r person dan sylw gytuno i gael archwiliad meddygol gan ymarferydd meddygol cofrestredig a enwebir gan y CFFC³⁷.

Anghenraid i gael asesiad iaith

4.7 Mae gan y pwyllgor rym i benderfynu bod angen i'r aelod cofrestredig gael asesiad iaith. Gall y cadeirydd roi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r aelod³⁸:

- sefyll arholiad neu asesiad arall ar ei wybodaeth o'r iaith Saesneg, a
- rhoi tystiolaeth o ganlyniad yr arholiad neu asesiad i'r cofrestrydd

4.8 Efallai y bydd y pwyllgor yn gorchymyn hyn os yw'n credu nad oes gan berson sydd wedi cofrestru'n weithiwr fferyllol proffesiynol wybodaeth ddigonol o'r Saesneg i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain. Os yw'r pwyllgor yn ystyried y math hwn o achos dylai ystyried y canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi.

Cytuno ar addewidion

4.9 Mae gan y pwyllgor, pan fo'r aelod yn cyfaddef bod nam ar ei addasrwydd ymarfer, hawl i gytuno ar addewidion³⁹. Mae hyn yn golygu bod yr aelod yn addo pethau y bydd, ac na fydd, yn eu gwneud yn y dyfodol a gallant gynnwys cyfyngiadau ar ymarfer neu ymddygiad neu ymrwymiad i ymgymryd ag ailhyfforddiant neu oruchwyliaeth. Bydd y rhai nad ydyn nhw'n ymwneud ag iechyd yn cael eu cofnodi ar y gofrestr ar-lein⁴⁰.

4.10 Bydd addewidion ddim ond yn addas pan fo'r pwyllgor yn fodlon y bydd yr aelod yn cydymffurfio â nhw, er enghraifft, am ei fod wedi dangos dealltwriaeth ynghylch ei ymddygiad a bod tebygrwydd yr unionir yr ymddygiad. Pan fo aelod yn methu â chydymffurfio ag addewid neu pan fydd iechyd aelod neu ei berfformiad yn dirywio neu'n achosi gofid pellach ynghylch ei addasrwydd ymarfer, gall y cofrestrydd gyfeirio'r mater i'r pwyllgor ar gyfer gwrandawriad adolygu⁴¹.

³⁶ Gorchymyn Fferylliaeth 2010 Erthygl 54(7)

³⁷ Rheol 13 (1) (a) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

³⁸ Rheol 6 (4) (e) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

³⁹ Rheol 26 (1) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

⁴⁰ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/gphc_publication_and_disclosure_policy_vseptember_2014.pdf

⁴¹ Rheol 45(3) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

Cyrff corfforaethol

- 4.10 O ran cyrff corfforaethol, mae gan y pwyllgor bŵer, os yw'n ystyried hynny'n briodol, i ddileu gweithdrefnau cymhwyster drwy gytuno ar addewidion priodol gyda'r parti 'adran 80'⁴² neu drwy roi cyngor neu rybudd, yn lle dod i benderfyniad dan adran 80 Deddf Meddyginiaethau 1968⁴³.
- 4.11 Pan fo'r Cyngor yn dod yn ymwybodol bod parti wedi methu â chydymffurfio ag addewidion y cytunwyd arnyn nhw, rhaid i'r Pwyllgor⁴⁴:
- fwrw ymlaen i ystyried y mater; ac
 - ailfeddwl y sancsiwn a osodwyd, a gall yn ei le wneud penderfyniad dan adran 80(1) neu adran 80(4) Deddf Meddyginiaethau 1968
- 4.12 Mae gan y pwyllgor hefyd bŵer⁴⁵ i ddelio gyda 'honiadau diarddel' yn erbyn corff corfforaethol sy'n cynnal busnes fferyllol masnachol. Gall y pwyllgor benderfynu:
- y dylid diarddel corff corfforaethol at ddibenion Rhan IV Deddf Meddyginiaethau 1968
 - y dylid diarddel 'cynrychiolydd' o'r corff corfforaethol rhag bod yn gynrychiolydd at ddibenion Rhan IV Deddf Meddyginiaethau 1968
 - y dylai'r cofrestrydd ddileu o'r gofrestr lleoliadau rai neu'r cwbl o'r lleoliadau y mae'r corff corfforaethol yn cynnal busnes fferyllol masnachol
 - y dylai'r cofrestrydd ddileu o'r gofrestr lleoliadau, am gyfnod cyfyngedig, rai neu'r cwbl o'r lleoliadau y mae'r corff corfforaethol yn cynnal busnes fferyllol masnachol ynddynt⁴⁶

Erlyn

- 4.13 Os yw'r pwyllgor o'r farn y dylai'r CFFC ddefnyddio'i bwerau i ddod ag achos troseddol rhaid iddo hysbysu'r cofrestrydd am y penderfyniad⁴⁷.

⁴² Diffinnir yn Rheol 2 fel "unigolyn neu gorff corfforaethol sy'n destun gweithdrefnau o flaen y Pwyllgor mewn cysylltiad â phenderfyniad dan adran 80(1) neu (4) y Ddeddf (neu, pan yn briodol, eu cynrychiolwyr)"

⁴³ Rheol 26(2) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

⁴⁴ Rheol 32(18) - Gorchymyn Cyngor (Rheolau Ymarfer a Diarddel ac ati) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2010

⁴⁵ Adran 80 Deddf Meddyginiaethau 1968

⁴⁶ Adran 80(3) Deddf Meddyginiaethau 1968

⁴⁷ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Prosecution%20Policy%2C%202010-11-2011_0.pdf

5. Penderfynu ar sancsiwn

5.1 Wrth wneud ei benderfyniad rhaid i'r pwyllgor ystyried amcanion cyffredinol y CFfC. Dylai'r pwyllgor ystyried holl amrediad y sancsiynau y gall eu gosod. Dylai ddefnyddio ei ddisgreswin a phenderfynu ar sancsiwn sy'n briodol ac yn gymesur. Ystyr 'cymesur' yw na ddylai sancsiwn fod yn fwy difrifol nag oes angen iddo fod i gyflawni ei amcanion⁴⁸. Dylai'r pwyllgor hefyd sicrhau bod unrhyw sancsiwn yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried:

- a yw'n ddigonol i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- a yw'n ddigonol i gynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn dan sylw, ac
- a yw'n ddigonol i gynnal y safonau ac ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn dan sylw

Materion allweddol i'w hystyried

5.2 Mae sicrhau bod gwrandawriad yn arwain at y canlyniad cywir yn bwysig i gadw ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn ac i'r ffordd y rheoleiddir y proffesiwn. Wrth benderfynu ar y sancsiwn mwyaf addas i'w gosod, os gosodir sancsiwn o gwbl, dylai'r pwyllgor ystyried:

- y graddau y mae'r aelod cofrestredig wedi torri'r safonau⁴⁹ a gyhoeddwyd gan y CFfC
- buddiannau'r aelod cofrestredig, wedi eu pwysu yn erbyn budd y cyhoedd
- amcanion cyffredinol y CFfC
- amgylchiadau personol yr aelod cofrestredig ac unrhyw faterion lliniarol* mae wedi eu cynnig
- y penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd
- unrhyw eirdaon a roddwyd i gefnogi'r aelod cofrestredig
- unrhyw ffactorau perthnasol a allai waethygu* ymddygiad yr aelod cofrestredig yn yr achos
- unrhyw ddatganiadau barn ar ymddygiad yr aelod cofrestredig a roddwyd i'r pwyllgor gan glaf neu unrhyw un arall
- unrhyw sylwadau a wnaed i'r pwyllgor gan gynrychiolydd o'r CFfC, yr aelod cofrestredig neu gynrychiolydd yr aelod
- cynnwys y canllawiau hyn
- unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddwyd gan y CFfC

* *Gweler paragraffau 5.10 i 5.23 am esboniad o ffactorau gwaethygu a lliniaru.*

⁴⁸ Chaudhury v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2002] UKPC 41

⁴⁹ Gorchymyn Fferylliaeth 2010 Erthygl 48 (1)

- 5.3 Er mwyn sicrhau bod y sancsiwn yn gymesur, dylai'r pwyllgor ystyried pob sancsiwn sydd ar gael, gan ddechrau gyda'r sancsiwn lleiaf, a phenderfynu a yw'n addas at yr achos. Os nad yw, dylai'r pwyllgor ystyried y sancsiwn nesaf, ac yn y blaen, tan iddo gyrraedd sancsiwn y mae'n ei ystyried yn addas⁵⁰.
- 5.4 Dylai'r pwyllgor hefyd ystyried y sancsiwn yn union uwch ben y sancsiwn mae wedi penderfynu arno, a rhoi rhesymau dros benderfynu nad yw'r sancsiwn uwch yn briodol ac yn gymesur.
- 5.5 Gall gwaharddiad dros dro bara hyd at 12 mis. Y pwyllgor sydd i benderfynu ar hyd gwaharddiad, a dylai ystyried difrifoldeb yr achos ac unrhyw ffactorau perthnasol. Dylid ystyried cyfnod y gwaharddiad yn erbyn ffeithiau'r achos a dylai fod yn gymesur. Dylai'r pwyllgor roi ei resymau dros y cyfnod y penderfynwyd arno. Mae hyn yn wir pan fo pwyllgor wedi penderfynu ar waharddiad 12 mis neu ar waharddiad byrrach.
- 5.6 Ni ellir gosod amodau ar aelod am fwy na thair blynedd. Y pwyllgor sydd i benderfynu pa amodau i'w gosod ac am ba hyd y dylent barhau. Bydd amodau yn cael eu gosod er mwyn diogelu'r cyhoedd neu am resymau eraill sydd o fudd i'r cyhoedd neu'r aelod cofrestredig.

Budd y cyhoedd

- 5.7 Wrth benderfynu pa sancsiwn i'w osod, dylai'r pwyllgor ystyried yn ddigonol fuddiannau helaethach y cyhoedd⁵¹. Yng nghyd-destun gwrandawriad addasrwydd ymarfer, rhaid i ystyriaethau ar fudd y cyhoedd gynnwys:
 - diogelu'r cyhoedd
 - cynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn
 - cynnal safonau ymddygiad priodol
- 5.8 Mae gan y pwyllgor yr hawl i roi mwy o bwysau i fudd y cyhoedd nag i'r canlyniadau i'r aelod cofrestredig⁵². Hyd yn oed os bydd gan sancsiwn effeithiau negyddol i'r aelod,⁵³ gall fod yn briodol os mai'r diben yw sicrhau un neu ragor o'r canlyniadau a restrir yn 5.7⁵⁴. Dylai'r pwyllgor sicrhau bod ystyriaethau budd y cyhoedd yn cael eu hadlewyrchu yn y rhesymau a roddir dros benderfynu ar sancsiwn penodol.
- 5.9 Disgrifiodd Mr. Ustus Newman⁵⁵ ganllawiau sancsiwn a budd y cyhoedd yn y ffordd ganlynol: "Maent yn ganllawiau defnyddion iawn ac maen nhw'n creu fframwaith sy'n galluogi unrhyw dribiwnlys, gan gynnwys y llys hwn, i ganolbwyntio ar y materion perthnasol. Ond rhaid

⁵⁰ Giele v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2005] EWHC 2143 (Gwein)


⁵¹ CHRE v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Grant)

⁵² Marinovich v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2002] UKPC36

⁵³ Bolton v Cymdeithas y Gyfraith [1994] 2 All ER 286

⁵⁴ Laws LJ in Rashid a Fatnani v CMC [2007] 1 WLR 1460

⁵⁵ R (ar gais of Abrahaem) v CMC [2004]



dychwelyd at yr hyn sydd wrth wraidd diben y sancsiynau, sef, fel yr eglurwyd gennyf eisoes, nid cosbi ond yn hytrach ddiogelu'r cyhoedd; mae budd y cyhoedd yn label sy'n rhoi bod i feysydd eraill i'w hystyried."

Ffactorau gwaethygu a lliniaru perthnasol

- 5.10 Pan fo pwyllgor yn gwneud penderfyniad ynghylch addasrwydd ymarfer fferyllydd neu dechnegydd fferyllol a'r sancsiwn priodol, rhaid iddo fod yn sicr ei fod wedi derbyn y dystiolaeth sydd arno ei hangen I ddod at benderfyniad llawn a chymesur. Rhaid iddo ystyried cyd-destun yr achos. Wrth ddefnyddio'r gair 'cyd-destun' rydym yn golygu'r amgylchiadau y digwyddodd y digwyddiad honedig ynddo, yn cynnwys unrhyw ystyriaethau personol (profedigaeth, er enghraifft), a'r hyn sydd wedi digwydd ers i'r digwyddiad honedig ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ffactorau gwaethygu a lliniaru (yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob achos), gan gofio mai'r prif ddiben yw diogelu'r cyhoedd.
- 5.11 Ffactorau gwaethygu yw amgylchiadau achos sy'n gwneud yr hyn a ddigwyddodd yn fwy difrifol. Y gwrthwyneb yw'r ffactorau lliniarol. Gallant ymddangos yn ffeithiau'r achos fel amgylchiadau, ymddygiadau, agweddau neu weithredoedd. Y pwyllgor sydd i benderfynu a yw'r ffactorau yn gwaethygu neu'n lliniaru. Ymhob achos, rhaid i'r pwyllgor ystyried ffactorau gwaethygu a ffactorau lliniaru yn y dystiolaeth y maen nhw wedi ei chlywed.

Amgylchiadau

5.12 Efallai y bydd ffactorau pwysig ymhlith yr amgylchiadau y digwyddodd yr ymddygiad honedig ynddyn nhw a rhaid eu hystyried wrth wneud penderfyniad. Efallai y bydd y pwyllgor am ystyried y goblygiadau neu'r risgiau i ddiogelwch y claf yn sgil y digwyddiad. Efallai y bydd hefyd, am ystyried, er enghraifft:

- ai digwyddiad unigol oedd y digwyddiad, neu a gafodd ei ailadrodd
- ble y digwyddodd y digwyddiad
- unrhyw faterion personol perthnasol
- a oes hanes o ofidiau am addasrwydd ymarfer

5.13 Dylent ystyried a oedd y digwyddiad yn cynnwys:

- camddefnyddio neu dorri ymddiriedaeth
- cam-drin safle proffesiynol yr aelod
- a fanteisiodd yr aelod yn ariannol

Dylent hefyd ystyried unrhyw benderfyniadau blaenorol gan y pwyllgor am yr aelod pan fônt yn berthnasol i'r achos.

5.14 Gallai ffactorau eraill gynnwys a oedd yr aelod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, neu a oedd niwed neu risg niwed i'r claf neu berson arall oedd yn bresennol.

Ymddygiad ac agwedd

5.15 Mae tystiolaeth o ymddygiad ac agwedd yr aelod cofrestredig cyn, yn ystod ac wedi'r digwyddiad a chyn ac yn ystod y broses ymchwilio hefyd yn bwysig – cydweithredu gyda'r ymchwiliad, er enghraifft, neu fod yn agored gyda chleifion a'r cyhoedd pan fo pethau'n mynd o chwith. Efallai y bydd y pwyllgor am ystyried a ydy'r aelod cofrestredig wedi:

- edifarhau a cheisio gwneud iawn am bethau - gan gynnwys rhoi ymddiheuriad
- dangos ei fod yn deall y gofidiau ac wedi gweithredu er mwyn osgoi eu hailadrodd
- bod yn anonest gyda'r pwyllgor

5.16 Gellir hefyd gyflwyno geiradaon a thystebau fel tystiolaeth. Ymhelaethir ar hyn isod.

Mewnwelediad

5.17 Mae'r cyngor o'r farn bod mewnwelediad yn ffactor allweddol i'w ystyried gan bwyllgorau mewn achosion addasrwydd ymarfer. Mae disgwyl i aelod dderbyn a deall y dylai fod wedi ymddwyn

mewn ffordd wahanol, ac y bydd yn gweithredu er mwyn peidio ag ailadrodd yr ymddygiad, yn ffactor pwysig i'w ystyried gan bwyllgor.

- 5.18 Wrth asesu mewnwelediad bydd angen i'r pwyllgor ystyried ffactorau megis a yw'r aelod wedi dangos mewnwelediad go iawn - yn gyson drwy gydol y gwrandawriad a hefyd yn ei weithredoedd ar ôl y digwyddiad - ac wedi dangos i'r pwyllgor ei fod yn deall ac wedi cael mewnwelediad ynghylch penderfyniad y pwyllgor.
- 5.19 Dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol y gall mewnwelediad gael ei fynegi mewn ffyrdd gwahanol yn sgil gwahaniaethau diwylliannol, y ffordd y gwneir ymddiheuriad, er enghraifft, os gwneir un. Mae bod yn sensitif i'r materion hyn yn bwysig wrth farnu ymddygiad ac aelod yn ystod gwrandawriad.

Tystebau

- 5.20 Gall tystebau (neu eirdaon) gael dylanwad pwysig ar ganlyniad gwrandawriad addasrwydd ymarfer a gellir eu cyflwyno fel mesurau lliniarol mewn gwrandawriad. Dylai'r pwyllgor yn gyntaf ystyried a ydynt yn ddiffuant ac a ellir dibynnu arnynt. Dylai'r pwyllgor ystyried a oedd awduron y tystebau'n ymwybodol o'r digwyddiadau a arweiniodd ar y gwrandawriad ac i ba raddau wedyn y dylid eu hystyried.
- 5.21 Fel gyda ffactorau gwaethygu a lliniaru eraill, bydd angen pwysu unrhyw eirdaon a thystebau'n briodol yn erbyn natur y ffeithiau sydd wedi eu profi a'u hystyried yn ystod camau priodol y broses. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried pryd o fewn y gwrandawriad y dylid ystyried ffactorau lliniarol personol a thystebau.
- 5.22 Dylid ystyried tystebau a baratowyd cyn gwrandawriad yng ngoleuni'r penderfyniadau a wneir ar ffeithiau'r achos yn ystod y gwrandawriad. Efallai y bydd tystebau neu dystiolaeth arall sy'n cadarnhau'r camau a weithredwyd gan aelod i unioni'r ymddygiad a arweiniodd at yr achos (gan gydweithwyr proffesiynol er enghraifft) yn berthnasol wrth ystyried nam ar addasrwydd ymarfer. Ni ddylid gadael y dystiolaeth hon tan y cam gosod sancsiwn⁵⁶.

Gweithredoedd

- 5.23 Mae gweithredoedd aelod yn bwysig i'w hystyried gan y pwyllgor wrth benderfynu ar sancsiwn. Mae ffactorau i'w hystyried yn cynnwys a oedd:
- yr ymddygiad wedi ei gynllunio o flaen llaw ai peidio
 - ymgais gan yr aelod i guddio'i gamymddwyn
 - y camymddwyn yn gyson neu wedi ei ailadrodd dros amser
 - yr aelod wedi manteisio ar berson agored i niwed

⁵⁶ Dywedwyd gan Mr Ustus McCombe yn *Azzam v Cyngor Fferyllol Cyffredinol* [2008]

6. Canllawiau ychwanegol ar feysydd penodol

6.1 Yn aml mae rhai achosion addasrwydd ymarfer yn fyw cymhleth nag eraill wrth benderfynu pa sancsiynau i'w cyflwyno. Credwn y bydd darparu canllawiau ychwanegol - yn cynnwys y gyfraith achos berthnasol, egwyddorion cyfreithiol a barn CFFC ar rai meysydd penodol - yn helpu sicrhau penderfyniadau cyson a chymesur. Nod hyn yw helpu pwyllgorau wrth gyrraedd penderfyniadau.

Camymddwyn rhywiol

6.2 Mae camymddwyn rhywiol - waeth beth yw'r amgylchiadau - yn tanseilio ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn ac mae'n effeithio'n sylweddol ar enw da gweithwyr fferyllol proffesiynol, ac mewn rhai achosion gall fod yn risg sylweddol ac uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae camymddwyn rhywiol yn cynnwys nifer eang o agweddau, yn cynnwys aflonyddu'n rhywiol, ymosod yn rhywiol, archwilio cleifion yn gorfforol heb fod angen neu heb ganiatâd, a throseddau rhyw difrifol a all arwain at gollfarn droseddol.

6.3 Cred y CFFC bod rhai ffurfiau ar gamymddwyn rhywiol yn anghyson gyda pharhau i fod ar y gofrestr fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol. Mae'n debygol mai dileu aelod o'r gofrestr fydd y sancsiwn mwyaf priodol yn yr achosion hyn, oni bai bod tystiolaeth o ffactorau lliniarol clir sy'n peri i bwyllgor farnu nad yw sancsiwn o'r fath yn addas. Mae'r ymddygiad yn arbennig o ddifrifol os:

- oes collfarn am drosedd rywiol ddifrifol
- yw aelod yn camddefnyddio'r safle arbennig sydd ganddo
- oes plentyn yn gysylltiedig â'r ymddygiad (yn cynnwys cael mynediad i, edrych ar, neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â delweddau o gam-drin plant yn rhywiol⁵⁷) neu oedolyn sy'n agored i niwed⁵⁸
- yw'r aelod wedi gorfod cofrestru fel troseddwr rhyw neu wedi ei gynnwys mewn unrhyw restr wahardd

6.4 Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Ei nod yw dangos mai dileu aelod o'r gofrestr yw'r penderfyniad mwyaf priodol a chymesur, oherwydd y risg i gleifion a'r effaith ar ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn, mewn achosion fel y rhain⁵⁹. Os yw pwyllgor yn penderfynu gosod sancsiwn

⁵⁷ *CHRP v (1) GDC a (2) Mr Fleischmann*

⁵⁸ *Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland*

⁵⁹ *Dr Haikel v CMC (Apêl Rhif 69 y Cyfrin Gyngor 2001)*



gwahanol i hyn, rhaid iddo esbonio'n llawn pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw, er mwyn i bobl nad ydynt wedi clywed y dystiolaeth i gyd allu deall y penderfyniad.

- 6.5 Gall y camymddwyn fod wedi digwydd mewn amrywiaeth o leoliadau. Gall fod yn lleoliad preifat gydag aelodau o'r teulu neu mewn cyd-destun cymdeithasol, neu tra bo'r aelod wrth ei waith, gyda chleifion a chydweithwyr. Mae'n bwysig felly bod y pwyllgor yn ystyried yn ofalus pob achos yn ei rinwedd ei hun, a gwneud penderfyniadau yng ngoleuni amgylchiadau'r achos a'r risg sydd i gleifion a'r cyhoedd. Dylai'r pwyllgor hefyd gyfeirio at ganllawiau'r CFfC ar gynnal ffiniau rhyw clir⁶⁰.
- 6.6 Gallai aelod cofrestredig fod wedi cyflawni tersedd ond heb ei gynnwys ar restr wahardd. Os felly, ac os oes gan y pwyllgor unrhyw amheuaeth a ddylai ddychwelyd at ei waith heb ddarpariaeth i ddiogelu'r cyhoedd, ni ddylid rhoi cofrestriad diamod i'r aelod. Nid oes angen i bwyllgor argymhell a ddylid cyfeirio aelod at awdurdod gwahardd, gan y bydd y CFfC yn ystyried hyn.
- 6.7 O gofio'r swyddogaeth sydd gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a'r ffaith eu bod yn gweithio'n agos ac yn gyson gyda chleifion (yn cynnwys plant ac oedolion agored i niwed), mae potensial y gallai perthnasau amhriodol, ond nid rhywiol, ddigwydd. Barn y CFfC yw y dylai pwyllgorau ystyried ymddygiad rheibus, neu gamddefnyddio safle, sy'n arwain at berthynas amhriodol gyda chleifion agored i niwed neu gydweithwyr yn rhai difrifol. Dylai pwyllgorau ystyried yn ofalus gyd-destun y berthynas a pha mor agored i niwed y mae'r bobl yr effeithir arnynt, wrth iddo benderfynu ar sancsiwn.

Anonstrwydd

- 6.8 Mae rheoleiddwyr yn sicrhau bod ffydd y cyhoedd mewn proffesiwn yn cael ei chynnal. Mae hon yn egwyddor sydd wedi ei hen dderbyn ac mae ein safonau⁶¹ yn nodi y dylai aelodau cofrestredig ymddwyn gydag onestrwydd ac integriti er mwyn cynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae rhai gweithredoedd, er nad ydynt yn creu risg uniongyrchol i'r cyhoedd, mor ddifrifol fel eu bod yn tanseilio ffydd yn y proffesiwn cyfan. Cred y CFfC bod anonestrwydd yn niweidio ffydd y cyhoedd, ac yn tanseilio integriti fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Gall achosion sy'n ymwneud ag anonestrwydd fod yn gymhleth, fodd bynnag - dylai pwyllgorau ystyried y cyd-destun yn ofalus a'r amgylchiadau pan ddigwyddodd yr anonestrwydd honedig. Er bod achosion o anonestrwydd yn rhai difrifol, felly, ni fyddant i gyd yn arwain at ddileu aelodaeth aelod o anghenraid.
- 6.9 Mae rhai enghreifftiau o anonestrwydd m or ddifrifol dylai pwyllgorau ystyried dileu aelodaeth fel yr unig sancsiwn priodol a chymesur. Mae hyn yn cynnwys honiadau sy'n cynnwys twyllo'r GIG neu gyflogwr yn fwriadol, ffugio cofnodion claf, neu anonestrwydd mewn treialon cyffuriau.

⁶⁰ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/GPHC%20Guidance%20on%20sexual%20boundaries%20Welsh.pdf

⁶¹ Gorchymyn Fferylliaeth 2010 Erthygl 48 (1)

6.10 Wrth benderfynu ar y sancsiwn addas mewn achos ynghylch anonestrwydd, dylai'r pwyllgor bwysu a mesur pob ffactor perthnasol, yn cynnwys unrhyw ffactorau gwaethygu neu liniaru. Mae'n bwysig deall y cyd-destun y digwyddodd yr anonestrwydd ynddo a dod i benderfyniad ar sail y ffactorau allweddol. Dylai'r pwyllgor wedyn rhoi sylw manwl i effaith anonestrwydd ar hyder y cyhoedd yn y proffesiwn⁶².

Dyletswydd didwyllledd

6.11 Mae ymddwyn mewn ffordd agored a gonest pan fo pethau'n mynd o chwith yn ddyletswydd hanfodol ar bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol. Mae ein safonau cyhoeddedig yn nodi bod yn rhaid i aelodau cofrestredig fod yn onest ac yn ddidwyll pan fo pethau'n mynd o le⁶³. Cred y CFFC ei bod yn bwysig bod amgylchedd a diwylliant mewn fferylliaeth sy'n galluogi perchnogion fferyllfeydd, fferyllwyr goruchwyliol, fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i fod yn:

- agored ac yn onest gyda chleifion a'r cyhoedd pan fo pethau'n mynd o chwith (naill ai yn sgil rhywbeth y maen nhw wedi ei wneud neu yn sgil rhywbeth y mae rhywun arall wedi ei wneud), ac yn
- gallu mynegi pryderon wrth gyflogwyr

6.12 Disgwylir i aelodau cofrestredig fod yn agored ac yn onest gyda phawb sydd ynghlwm wrth ofal cleifion. Dylai pwyllgorau felly weld esboniadau aelodau, ymddiheuriadau ac empathi yn gamau cadarnhaol cyn ac yn ystod gwrandawriad. Nid yw'r rhain fel arfer yn gyfystyr â chyfaddefiad gan aelod ei fod yn euog. Oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb, felly, ni ddylid eu trin fel cyfaddefiad o euogrwydd.

6.13 Mae'r cyd-ddatganiad ar ddidwyllledd yn egluro pwysigrwydd y mater hwn⁶⁴. Barn y CFFC, felly, yw y dylai pwyllgorau ystyried yn ofalus iawn cyn penderfynu bod gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi gweithredu'n fwriadol i osgoi bod yn ddidwyll gyda chlaf, neu gydag unrhyw un ynghlwm wrth ofal claf, neu i rwystro rhywun arall rhag bod yn ddidwyll. Dylai ystyried sancsiynau o frig y raddfa wrth ddelio gydag achosion fel hyn.

⁶² R v Cyngor Optegol Cyffredinol [2013] EWHC 1887 (Gwein) a Siddiqui v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2013] EWHC 1883.

⁶³ Gorchymyn Fferylliaeth 2010 Erthygl 48 (1)

⁶⁴ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/joint_statement_on_the_professional_duty_of_candour.pdf



Mynegi pryderon

- 6.14 Cred y CFfC mai penderfyniadau unigol gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol a mwyaf positif at wella ansawdd mewn fferylliaeth a rheoli'r risgiau i gleifion. Gall methu â mynegi pryderon arwain at fethiannau mewn gofal iechyd ac achosi risg sylweddol i gleifion.
- 6.15 Rhaid, felly, i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol weithredu i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig bod amgylchedd a diwylliant mewn fferylliaeth sy'n cefnogi unigolion wrth fynegi pryderon ynghylch safonau gofal a risgiau i ddiogelwch cleifion ac adlewyrchir hyn yn ein safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad⁶⁵.
- 6.16 Cred y CFfC y dylai pwyllgor ystyried penderfyniad nad yw fferylllydd neu dechnegydd fferyllol wedi mynegi pryder pan fo risg i ddiogelwch claf yn un difrifol iawn. Rhaid iddo ystyried sancsiynau o frig y raddfa sancsiynau, ac yn yr achosion mwyaf difrifol, ddileu fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol o'r gofrestr er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.
- 6.17 Mae ein canllawiau ar fynegi pryderon⁶⁶ yn egluro pwysigrwydd mynegi gofid a'r camau y bydd angen i weithiwr fferyllol proffesiynol eu dilyn wrth fynegi pryder.

⁶⁵ Gorchymyn Fferylliaeth 2010 Erthygl 48 (1)

⁶⁶ www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/gphc_guidance_on_raising_concerns_welsh_14.pdf



Cyngor Fferyllol Cyffredinol

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org